# Beth ydw i?

## Nodiadau Canllaw i Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Dysgu am nodweddion defnyddiau crai lleol a gwrthrychau sy'n gysylltiedig â'r gamlas
- Darganfod sut roedd y defnyddiau crai a'r gwrthrychau'n cael eu defnyddio
- Datblygu sgiliau gan gynnwys sgiliau gwaith tîm, datrys problemau, llythrennedd a deall

### Adnoddau

- Cardiau cliwiau
- Cardiau gwrthrychau

### Cyfarwyddiadau ar gyfer y gêm




**Nod y gêm yw ceisio dyfalu beth yw'r defnydd crai neu'r gwrthrych sy'n cael ei ddisgrifio gyda chyn lleied â phosib' o gliwiau.**

Yn eich grŵp, cymerwch eich tro'n codi cerdyn gwrthrych a'r cerdyn cliw sy'n cyd-fynd ag o. Darllenwch y cliwiau, un ar y tro. Bydd y chwaraewyr eraill yn cymryd eu tro i ddyfalu beth yw'r gwrthrych ar ôl pob cliw. Mae'r cliwiau'n mynd yn haws bob tro.

Pan fydd chwaraewr yn dyfalu'r ateb cywir, neu os ydyn nhw'n dal heb ddyfalu ar ôl pob cliw, trowch y cerdyn gwrthrych drosodd i ddangos llun y gwrthrych.

Awgrym: Os hoffech chi wneud y gêm yn fwy cystadleuol, chwaraewch mewn parau a defnyddiwch y system sgorio isod. Mae'r chwaraewyr yn cymryd eu tro'n darllen gwahanol gerdyn gyda chliwiau.

Sgorio: Mae hyn yn dibynnu ar faint o gliwiau rydych chi eu hangen cyn i chi gael yr ateb yn gywir. Yr enillydd yw'r un gyda'r nifer uchaf o bwyntiau ar ddiwedd y gêm.

**1 cliw – 5 pwynt**
**2 gliw – 4 pwynt**
**3 chliw – 3 phwynt**
**4 cliw – 2 bwynt**
**5 cliw – 1 pwynt**

Nodyn: Trafodwch yr holl ffeithiau rydych chi wedi'u dysgu ar ddiwedd pob tro.

### Syniadau Gweithgareddau Eraill

1. Dewiswch wrthrych arall sy'n gysylltiedig â'r gamlas a dyluniwch eich set eich hun o gliwiau.
2. Defnyddiwch yr ymchwiliad astudiaeth achos ar Ddefnyddiau Crai i ddarganfod mwy am rai o'r defnyddiau crai.

Cerdyn Gwrthrych

# Bollt haearn ydw i




Cerdyn Gwrthrych

# Tywodfaen ydw i




Cerdyn Gwrthrych

# Clai ydw i




Cerdyn Gwrthrych

# Glo ydw i




Cerdyn Gwrthrych

# Calchfaen ydw i




Cerdyn Gwrthrych

# Dŵr ydw i



Cerdyn Gwrthrych

## Llechfaen neu lechi
ydw i




Cerdyn Gwrthrych

## Cwch camlas
ydw i




Cerdyn Gwrthrych

## Pont ydw i




Cerdyn Gwrthrych

## Craen
ydw i




Cerdyn Gwrthrych

## Ceffyl ydw i



Cerdyn Gwrthrych

## Dyfrbont Pontcysyllte
ydw i



## Cerdyn Cliw

1. Rydw i'n un o gannoedd gafodd eu defnyddio i adeiladu Dyfrbont Pontcysyllte.
2. Rydw i wedi fy ngwneud o ddefnydd sy'n cael ei gloddio o'r ddaear.
3. Rydw i'n dal yr ochrau (platiau haearn bwrw) ar gafn y ddyfrbont gyda'i gilydd.
4. Rydw i'n cael fy nhynhau gyda nyten, wedi'i sgriwio ar un pen i mi.
5. Rydw i wedi fy ngwneud o haearn ac rydw i'n ofnadwy o gryf.

ATEB: Bollt haearn

# Beth ydw i?

## Cerdyn Cliw

1. Roeddwn i'n wely i hen, hen afon filiynau o flynyddoedd yn ôl.
2. Rydw i'n cael fy naddu a fy nhorri mewn chwareli.
3. Rydw i'n gryf ond yn hawdd fy nhorri felly rydw i'n berffaith ar gyfer colofnau dyfrbontydd a phontydd camlesi.
4. Rydw i'n gyffredin yng Nghefn Mawr ond rydw i hefyd wedi cael fy nefnyddio i godi adeiladau enwog yn Lerpwl.
5. Rydw i'n felyn euraidd fy lliw.

ATEB: Tywodfaen

# Beth ydw i?

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i wedi fy ngwneud o ronynnau bach iawn ac rydw i'n eithaf gludiog.
2. Rydw i'n dal dŵr ac yn leinio gwaelod y gamlas rhag iddi ollwng dŵr.
3. Rydw i'n ddefnydd sy'n dod o'r ddaear.
4. Rydw i'n feddal ond yn caledu mewn popty poeth o'r enw odyn.
5. Rydw i'n cael fy nefnyddio i wneud brics a theils.

ATEB: Clai

# Beth ydw i?

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i wedi fy ffurfio o weddillion planhigion oedd yn byw dros 300 miliwn o flynyddoedd yn ôl.
2. Rydw i'n dod o le tywyll a llychlyd o dan y ddaear.
3. Roedd llawer o bobl yn gweithio yn y tywyllwch i fy nghloddio i.
4. Rydw i'n ffynhonnell o wres i gartrefi ac i wneud gwrthrychau mewn odynau a ffwrneisi.
5. Rydw i'n ddu ac yn sgleiniog.

ATEB: Coal

# Beth ydw i?

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i wedi fy ngwneud o weddillion creaduriaid y môr oedd yn byw filiynau o flynyddoedd yn ôl.
2. Rydw i'n cael fy nefnyddio wrth gynhyrchu haearn, mewn adeiladau ac i adeiladu ffyrdd.
3. Rydw i'n cael fy llosgi mewn odynnau i greu powdr gwyn sy'n cael ei ddefnyddio i greu morter i lynu cerrig a brics at ei gilydd.
4. Mae'r powdr gwyn hwn hefyd yn cael ei wasgaru ar dir fferm i helpu cnydau i dyfu.
5. Rydw i'n cael fy naddu a fy nhorri mewn chwareli.

ATEB: Calchfaen

# Beth ydw i?

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i'n dod o'r afon wrth Raeadr y Bedol.
2. Mae pysgod yn byw ynof i a hwyaid yn byw arnaf i.
3. Mae cychod yr arnofio arnaf i yn y gamlas.
4. Mae 55 miliwn litr ohonof i'n llifo drwy'r gamlas pob dydd.
5. Rydw i'n llenwi'r gamlas i gyd.

ATEB: Dŵr

# Beth ydw i?

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i'n dod o'r mynyddoedd ger Llangollen.
2. Rydw i'n cael fy naddu a fy nhorri o glogwyni mewn chwareli.
3. Rydw i'n cael fy nghludo at y gamlas y tu cefn i geffylau ar dramffyrdd.
4. Rydw i'n galed iawn ond rydw i'n hollti'n hawdd.
5. Rydw i'n cael fy nefnyddio i greu cerrig palmant ac ar doeau.

ATEB: Llechfaen/llechi

**Beth ydw i?**

## Cerdyn Cliw

1. Gall pobl fyw ynof i.
2. Rydw i'n gallu symud yn eithaf cyflym ar y gamlas.
3. Rydw i'n gallu cludo brics, glo a cherrig, ond twristiaid yn bennaf erbyn hyn.
4. Rydw i weithiau wedi fy mhaentio'n lliwgar.
5. Rydw i'n gallu cael fy nhynnu gan geffyl neu fy ngyrru gan injan.

ATEB: Cwch camlas

**Beth ydw i?**

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i wedi fy adeiladu yn bennaf o gerrig neu frics.
2. Rydw i wedi fy adeiladu er mwyn i bobl, anifeiliaid a cherbydau allu fy nghroesi.
3. Rydw i'n dod mewn nifer o wahanol ffurfiau, er enghraifft, gyda bwâu.
4. Os ydyn nhw wedi'u dylunio i wneud hynny, gall rhai mathau ohonof i gael eu hagor.
5. Mae 31 ohonof i dros Gamlas Llangollen.

ATEB: Pont

**Beth ydw i?**

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i wedi fy adeiladu o bren a metel.
2. Mae gen i fraich hir o bren neu fetel.
3. Rydw i'n gwneud codi llwythi'n haws.
4. Fe welwch chi fi yng Nglanfa Llangollen ac mewn lleoedd eraill ar hyd y gamlas.
5. Roeddwn i'n helpu i symud cargo ar ac oddi ar gychod camlas.

ATEB: Craen

**Beth ydw i?**

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i'n gryf iawn ac yn gweithio'n galed iawn.
2. Rydw i'n gwisgo coler dew o ledr gyda phadin gwellt.
3. Mae plant ifanc yn aml yn cerdded gyda mi ac yn helpu i ofalu amdanaf i.
4. Rydw i'n gallu tynnu 50 gwaith yn fwy o bwysau ar gwch camlas nag mewn trol.
5. Mae gennyf bedair coes.

ATEB: Ceffyl

**Beth ydw i?**

## Cerdyn Cliw

1. Rydw i'n 307 metr o hyd ac yn uchel iawn hefyd.
2. Cefais fy nylunio gan ddau beiriannydd enwog.
3. Fe wnes i ddathlu fy mhen-blwydd yn 200 oed yn 2005!
4. Mae cychod yn croesi drosof i.
5. Rydw i'n cario dŵr.

ATEB: Dyfrbont Pontcysyllte

**Beth ydw i?**